

Dweud Eich Dweud

Cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor ar gyfer Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2026-2027

Gofynnir am eich barn ar gynnig i gynyddu'r Dreth Gyngor 3.5% yng Nghastell-nedd Port Talbot (CnPT) ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-2027. Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg tan **ddydd Gwener 6 Chwefror 2026**.

Y Gyllideb Ddrafft

Mae'n rhaid i bob cyngor gyflawni cyllideb gytbwys yn ôl y gyfraith, ac mae Cyngor CnPT wedi cyhoeddi cynigion cyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Hyd yn oed ar adeg o bwysau ariannol parhaus, ein nod yw cyflawni cyllideb a fydd yn gweld buddsoddiad uchaf erioed mewn ysgolion a miliynau o bunnoedd ar gyfer gwasanaethau rheng flaen hanfodol eraill megis cynnal a chadw ffyrdd a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2026-2027 ar gyfer CnPT yn cynnwys £7 miliwn ychwanegol i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae £330,000 arall wedi'i ddyrannu ar gyfer cynnal a chadw adeiladau, gan gynnwys gwaith ar gyfleusterau ysgol.

Mae rhai o'r buddsoddiadau allweddol eraill a gynigir yn cynnwys:

- £100,000 ar gyfer cynnal a chadw meysydd chwarae, gan gefnogi'r Rhaglen Gwella Meysydd Chwarae gwerth £2.5 miliwn a gyhoeddwyd y llynedd.
- £170,000 i wella'r gwaith o reoli Glan Môr Aberafan, gan gynnwys rhaglen o weithgareddau.
- £200,000 i'r tîm Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt i gynnal hawliau tramwy cyhoeddus.
- £4.768 miliwn i gefnogi oedolion a phlant ag anghenion gofal ychwanegol.

Gallwch ddarllen manylion llawn cynigion y gyllideb ddrafft yn Adroddiad y Cabinet - Cynigion Cyllideb Refeniw 2026-2027 (Atodiad 4) ar-lein yn www.npt.gov.uk/cy/sgwrsio neu mewn copïau cyfeirio sydd ar gael yng Nghanolfan Ddinesig Port Talbot neu Castell-nedd, neu lyfrgelloedd ar draws CnPT.

Bwlch y Gyllideb

Er ein bod yn croesawu cynnydd o 4.2% mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf (y cynnydd ar gyfartaledd Cymru gyfan yw 4.5% gyda CnPT yn cyrraedd y cyd 12fed/17eg allan o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru) mae'n dal i adael diffyg cyllideb o **£16.623 miliwn.**

Mae'r cyngor wedi llwyddo i leihau'r diffyg hwn i **£2.802 miliwn** oherwydd newidiadau i gyfraniad y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a diolch i nodi mwy na 40 o gynigion cynilion a chynhyrchu incwm. Ni fydd y rhain yn arwain at newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth neu bolisi, felly nid ydynt yn rhan o'r ymgynghoriad. Maent yn cynnwys gwelliannau mewn gwasanaethau hamdden, celfyddydau a gwasanaethau amgylcheddol, yn ogystal â phrosiectau buddsoddi i arbed mewn meysydd fel effeithlonrwydd ynni a chyfleustodau.


Er mwyn cau'r bwlch sy'n weddill a pharhau i ddiogelu gwasanaethau hanfodol, **mae'r cyngor yn cynnig cynnydd o 3.5% yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2026-2027. Byddai hyn yn cyfateb i £1.15 yr wythnos** ar gyfartaledd a byddai'n cynrychioli'r cynnydd isaf yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Treth y Cyngor

Dyma ychydig o wybodaeth am y Dreth Gyngor yn CnPT ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol (2025-2026) a sut mae'n cael ei wario. Darparwyd hyn i'ch helpu i ystyried pa mor bell rydych yn cytuno â'r cynnig i gynyddu'r Dreth Gyngor 3.5% y flwyddyn nesaf.

Nid yw'r Dreth Gyngor rydych chi'n ei thalu yn cael ei chyfrifo ar sail pa wasanaethau rydych chi'n eu derbyn neu'n eu defnyddio. Caiff ei godi ar yr aelwyd, yn seiliedig ar werth yr eiddo. Mae Treth y Cyngor yn cyfrannu tua chwarter y gyllideb sydd ei hangen ar y cyngor i ddarparu gwasanaethau hanfodol i drigolion a busnesau.

Daw cyllid y cyngor o ddwy brif ffynhonnell - grantiau Llywodraeth Cymru a'r Dreth Gyngor. Dyma sut mae'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol (2025-2026) yn cael ei llunio:



Byddai cynnydd o 3.5% yn y Dreth Gyngor yn cyfateb i'r canlynol bob wythnos:

Cynnydd Wythnosol	
Band A = £0.90	Band F = £1.95
Band B = £1.05	Band G = £2.25
Band C = £1.20	Band H = £2.70
Band D = £1.35	Band I = £3.15
Band E = £1.65	

Treth y Cyngor (cyd)...

Er ei bod yn cael ei alw'n Dreth Gyngor, nid yw'r swm a godir arnoch i gyd yn dod i Gyngor Castell-nedd Port Talbot. Mae hefyd yn cynnwys taliadau am wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau eraill. Mae'r cyngor yn gweithio fel asiant casglu ac yn casglu'r taliadau hyn ar eu rhan. Nid oes gennym reolaeth dros y taliadau hyn.

Bydd y sefydliadau yr ydym yn casglu ar eu cyfer yn cael eu dangos ar eich bil Treth Gyngor, nhw yw:

- y tâl ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru.
- tâl ar gyfer eich Cyngor Tref neu Gymuned, os ydych yn byw mewn ardal sydd ag un.

Ble mae Treth y Cyngor yn mynd

Mae'r graffeg ar y dde yn dangos dadansoddiad manwl ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol (2025-2026) o sut mae'ch Treth Gyngor yn helpu i ddarparu gwasanaethau yn CnPT.

Mae hyn yn seiliedig ar dâl Band D sef £2,002.78. Defnyddir tâl Treth y Cyngor Band D fel cyfeirbwynt i osod Treth y Cyngor ar gyfer yr holl fandiau eraill. Mae tua 51,000 o yn CnPT (79%) ym mandiau A, B ac C, felly cyfartaledd y Dreth Gyngor ar gyfer y fwrdeistref sirol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol (2025-2026) yw £1,907.17.

i ble mae Treth y Cyngor yn mynd:

Treth y Cyngor 2025-2026 £2,002.78

Yn seiledid ar eiddo Band D



£773.10 Ysgolion ac addysg



£663.70 Gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn a gwarchod plant a phobl ifanc



£115.50 Cefnogaeth Treth y Cyngor



£103.78 Talu am brosiectau cyfalaf o bwys



£88.87 Cynnal a chadw leolydd, parciau, pontydd, golau stryd, draenio ac ati



£79.66 Casglu gwastraff ac ailgylchu



£60.21 Cyfraniad ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin



£34.27 Hamdden, diwylliant a llyfrgelloedd



£30.18 Trafnidiaeth, diogelwch ar yr heol, ac ymatebion i dywydd gaefol ac argyfyngau



£26.15 Glanhau strydoedd, sbwriel a wardeiniaid cŵn



£15.00 Datblygu economaidd, cynllunio a chefnogi busnes



£12.36 Iechyd Amgylcheddol, Safonau Masnach a gwasanaethau eraill y cyngor

Cymorth Treth y Cyngor

Mae gan y cyngor Gynllun Cymorth Treth y Cyngor sy'n helpu aelwydydd cymwys i leihau eu biliau. Gall pobl sydd ar incwm isel neu'n cael budd-daliadau gan gynnwys Credyd Cynhwysol, efallai y bydd gennych hawl i Gymorth Treth y Cyngor.

Cymorth Treth y Cyngor (cyd …)

Yn 2025-2026, allan o gyfanswm o ychydig dros 67,000 o gartrefi yng CnPT, mae 15,200 eisoes yn derbyn Cymorth Treth y Cyngor, o'r rhain:

- nid yw 12,400 yn talu Treth y Cyngor
- mae tua 2,800 yn talu swm rhannol yn unig

Mae Cymorth Treth y Cyngor yn destun prawf modd felly mae'r rhai sydd ei angen fwyaf yn ei derbyn.

Y dewis arall yn lle cynnydd yn y Dreth Gyngor

Am bob gostyngiad o 1% yn y Dreth Gyngor, byddai angen i'r cyngor ddod o hyd i £800,000 ychwanegol.

Y dewis arall yn lle cynyddu'r Dreth Gyngor fyddai toriadau i wasanaethau rheng flaen hanfodol y mae pobl yn dibynnu arnynt bob dydd. Mae hyn yn cynnwys pethau fel cynnal a chadw ffyrdd, casgliadau biniau a gofalu am blant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Cronfa Wrth Gefn y Cyngor

Gofynnir inni yn aml a ellir defnyddio cronfeydd wrth gefn y cyngor i gydbwyso'r gyllideb. Er mwyn cadw cronfeydd wrth gefn ar y lefel isaf yn y Polisi Cronfa Wrth Gefn Cyffredinol (h.y. 4% o'r gyllideb refeniw net), nid oes llawer o gwmpas i'w defnyddio i gefnogi cynigion cyllideb 2026-27.

Effaith ar yr laith Gymraeg

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei gynnal yn dilyn yr ymgynghoriad.

Dweud Eich Dweud!

Rydym yn ymgynghori ar y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor tan **ddydd Gwener 6 Chwefror 2026** a byddem yn gwerthfawrogi eich barn.

Y ffordd gyflymaf a hawsaf o gymryd rhan yw ar-lein yn **www.npt.gov.uk/ymgynghoriadau** neu drwy sganio'r cod QR:

Copïau wedi'u hargraffu

Os nad ydych ar-lein, mae copïau printiedig o'r holiadur ar gael o Ganolfan Ddinesig Port Talbot neu Castell-nedd, neu lyfrgelloedd ar draws CnPT.

Fel arall:

- e-bost: sgwrsio@npt.gov.uk; neu
- neges destun/ffoniwch 07805 771506 a gadewch eich enw a'ch cyfeiriad

i'w anfon copi printiedig drwy'r post.